**Cyflwyniad i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a'r Adran Gwaith a Phensiynau**

***Ariannu Tai â Chymorth: Datganiad Polisi ac Ymgynghoriad***

*Adran 3: Ymgynghoriad ar gostau tai ar gyfer llety â chymorth tymor byr*

**Dyddiad cau: 23 Ionawr 2018**

| | |
|---|---|
| **Enwau:** | *Gwendolyn Sterk, Rheolwr Materion Cyhoeddus* |
| **Sefydliad:** | *Cymorth i Ferched Cymru* |
| **Cyfeiriad ebost:** | *gwendolynsterk@welshwomensaid.org.uk* |
| **Rhif ffôn:** | *02920 541 551* |
| **Cyfeiriad:** | *Tŷ Pendragon, Caxton Place, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE* |
| **Dyma farn:** | *Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.* |

**Cymorth i Ferched Cymru**

Cymorth i Ferched Cymru yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol yng Nghymru i aelodau sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i 27 o wasanaethau arbenigol annibynnol yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru (ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol).[1] Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau a gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, fel rhan o ddarpariaeth rhwydwaith yn y DU.

Fel sefydliad ymbarél, ein prif ddiben yw atal cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau ansawdd uchel i oroeswyr sy'n cael eu harwain gan anghenion, yn ymateb i rywedd ac yn gyfannol. Rydym ni'n cydweithio'n genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion cymunedol ac ymarfer yng Nghymru; rydym ni'n darparu cyngor, ymgynghoriaeth, cymorth a hyfforddiant i gyflawni gwelliannau polisi a gwasanaeth ar draws gwasanaethau'r llywodraeth, y sector cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac mewn cymunedau, er budd goroeswyr. Mae hyn yn

1. Ein haelodaeth sef 27 o wasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru, y mae gennym bartneriaeth genedlaethol gyda nhw i sicrhau bod ein gwaith yn cael ei gydlynu a'i integreiddio: *BAWSO, Hafan Cymru, Cymru Ddiogelach gan gynnwys Prosiect Dyn, Llamau, Cymorth i Ferched Caerdydd, Cyfannol, Safer Merthyr Tudful, Cymorth i Ferched Casnewydd, Cymorth i Ferched Port Talbot & Afan, Cymorth i Ferched Abertawe, Threshold, Atal Y Fro, Cymorth i Ferched RCT, Calan DVS, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru, Canolfan Argyfwng Teuluol Maldwyn, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy, Cymorth i Ferched Bangor a'r Ardal, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Cymdeithas Tai Clwyd Alyn, Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU), Cymorth i Ferched Glyndŵr, Gorwel (Grŵp Cynefin) a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych (NDDAS).*

cynnwys cynghori a chefnogi comisiynwyr ac arweinwyr strategol wrth ddatblygu asesiadau anghenion a chynlluniau strategol VAWDASV, hyrwyddo tystiolaeth ar gyfer modelau gwasanaeth newydd arloesol, a chefnogi ymchwil i atal cam-drin.

Mae rhai o'r gwasanaethau ymbarél niferus a gyflwynwn i'n haelodau'n cynnwys hwyluso ymwneud aelod wasanaethau â datblygiadau polisi, deddfwriaethol a strategol perthnasol ac annog cyd-gynhyrchu wrth ddatblygu gwasanaeth; darparu cyngor a gwybodaeth ar ddatblygiad a chyflawni ymarfer addawol yn y sector; darparu cymorth gyda materion polisi ac ymarfer, ac adroddiadau dadansoddi data rhanbarthol a chenedlaethol i gefnogi asesiadau lleol o anghenion, datblygiadau strategaeth a chomisiynu.

Rydym ni hefyd yn cyflwyno gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a gyllidir gan Lywodraeth Cymru; Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol; rhaglen waith genedlaethol Mae Plant yn Bwysig sydd, er enghraifft, yn cefnogi gwasanaethau lleol i helpu plant a phobl ifanc sydd wedi'u heffeithio gan gam-drin a chyflwyno rhaglenni Diogelwch, Ymddiriedaeth a Pharch (STAR) ar draws Cymru, a gwasanaethau lloches ac eiriolaeth ym Mae Colwyn a Wrecsam. Rydym ni'n peilota'r Gwasanaethau Goroeswyr yn Grymuso ac Addysgu (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddylanwadu ar wasanaethau a fframweithiau comisiynu, a helpu i newid agweddau cyhoeddus a chymunedol. Rydym ni hefyd yn gweithredu Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru, sy'n fframwaith achredu i wasanaethau arbenigol cam-drin domestig yng Nghymru (gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir rhagor o wybodaeth am y Safonau yma: http://www.welshwomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/)

**Ymateb i'r Ymgynghoriad:**

Ymatebodd Cymorth i Ferched Cymru i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ariannu llety â chymorth ym mis Chwefror 2017 ac mae wedi bod yn rhan o weithgor llety tymor byr sydd wedi cyflwyno cynigion i Lywodraeth y DU ar ddulliau ariannu. Rydym ni hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu model datganoledig ar gyfer ariannu tai â chymorth.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu bod Llywodraeth y DU wedi derbyn rhai o'r argymhellion a wnaed yn y cyfnod ymgynghori blaenorol yn y Papur Gwyn, sef:

- Ymestyn y cyfnod amser i Lywodraeth Cymru ddatblygu model ar gyfer Cymru, felly ni fydd y mecanweithiau ariannu newydd yn cael eu rhoi ar waith tan fis Ebrill 2020;
- Cydnabod yr angen i gael model gwahanol ar gyfer llety â chymorth tymor byr;
- Cael gwared ar y cynllun i ymestyn y Lwfans Tai Lleol (LHA) i dai cymdeithasol, gan gynnwys llety â chymorth;
- Cydnabod nad oedd y broses Credyd Cynhwysol yn fecanwaith priodol i ariannu costau tai llety â chymorth tymor byr;
- Caniatáu i'r cyllid dalu'r holl gostau tai gan gynnwys rhent a chostau gwasanaethau cymwys.

- Datganoli'r pot cyllid i Lywodraeth Cymru er mwyn creu model sy'n gallu cyd-fynd â ffrydiau arian datganoledig eraill ar gyfer y sector yng Nghymru.

Wedi dweud hynny, mae pryderon yn cael eu codi o hyd gan ein haelodau ynghylch cydnabod diben unigryw lloches, maint y pot cyllid a'i anhyblygrwydd i fodloni angen, sut y bydd yr arian yn cael ei ddosbarthu ac effeithiau canlyniadol posibl y model arfaethedig yn Lloegr ar rwydwaith cenedlaethol llochesi.

Mae ein hymateb wedi'i gyfyngu i'r rhannau perthnasol yn Adran 3 yr ymgynghoriad ar gyfer ein haelodau fel darparwyr gwasanaethau lloches yng Nghymru a'n rôl yn y rhwydwaith cenedlaethol o lochesi yn y DU. Yng ngoleuni hyn nid ydym wedi defnyddio'r cwestiynau penodol a ddefnyddiwyd yn yr ymgynghoriad. Yn hytrach, rydym yn canolbwyntio ar y 6 pwynt allweddol a godwyd gan ein haelodau.

**1. Diffiniad**

Mae'r diffiniad arfaethedig yn ddiffiniad eang sy'n cwmpasu ystod eang o lety tymor byr. Nid yw'n adlewyrchu natur unigryw a rôl lloches fel darpariaeth arbenigol, ymatebol i rywedd. Mae cydnabod diben unigryw lloches o fewn y diffiniad yn bwysig iawn os bydd symud tuag at y model comisiynu a amlinellwyd. Mae ein haelodau wedi rhoi adborth bod diffyg dealltwriaeth gan y comisiynwyr o arbenigedd gwasanaethau lloches ac mae hyn wedi effeithio'n andwyol ar benderfyniadau comisiynu a wnaed ar lefelau lleol a rhanbarthol. Mae hyn wedi cael effeithiau canlyniadol ar y lefel o ddarpariaeth ledled y rhwydwaith cenedlaethol o lochesi.

Am y rheswm hwn, mae angen adlewyrchu darpariaeth lloches fel sydd wedi'i ddiffinio gan Routes to Support[2] (UK Refuges Online gynt):

> *'Mae lloches yn cynnig llety a chymorth sy'n gysylltiedig â'r llety hwnnw. Ni fydd y cyfeiriad ar gael i'r cyhoedd. Bydd ganddo nifer penodol o leoedd. Bydd preswylwyr yn derbyn cynllun o gymorth therapiwtig ac ymarferol gan staff ac yn cael cefnogaeth cyfoedion gan breswylwyr eraill. Bydd hyn yn cynnwys: mynediad at wybodaeth ac eiriolaeth; cymorth emosiynol; mynediad at weithwyr cefnogi arbenigol (e.e. cam-drin cyffuriau/alcohol, iechyd meddwl, cam-drin rhywiol); mynediad at waith adfer; mynediad at gefnogaeth i blant (lle bo angen); cymorth ymarferol; gwaith allweddol a chefnogi cynllunio (gwaith yn ymwneud ag anghenion cymorth gan gynnwys e.e. rhianta, arian a lles); cynllunio diogelwch; a chwnsela.'*
> (Routes to Support, 2017)

**2. Cael gwared ar hawl budd-daliadau unigol**

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu cael gwared ar y cyllid ar gyfer llety tymor byr o'r broses Credyd Cynhwysol, ac yn cydnabod nad oedd y broses yn fecanwaith priodol i ariannu costau tai llety tymor byr. Hyd yn oed gyda'r newidiadau i broses y Credyd Cynhwysol a nodwyd yn araith Cyllideb y Canghellor ym mis Tachwedd 2017, mae'r angen i'r elfen hon o'r arian ddod yn uniongyrchol i'r darparwr oherwydd bod natur tymor byr y ddarpariaeth yn parhau.

[2]Mae Routes to Support yn system wybodaeth ar y we sy'n darparu gwybodaeth gyfredol am wasanaethau cam-drin/trais domestig. Ei nod yw helpu menywod a phlant sy'n wynebu cam-drin/trais domestig i ganfod y cymorth cywir drwy alluogi gwasanaethau rheng flaen i hysbysu mannau lloches neu wasanaethau eraill sydd ganddynt ar gael: https://routestosupport.org

Fodd bynnag, mae cael gwared ar ariannu lloches drwy fudd-daliadau tai yn cynrychioli newid sylweddol o ran ariannu darpariaeth lloches yn y DU nad yw wedi'i gydnabod yn y Papur Gwyn. Bydd y newid arfaethedig hwn yn cynrychioli newid hanfodol i sut mae lloches wedi cael ei ariannu. Bydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y darparwyr lloches ac, felly, y goroeswyr sy'n manteisio ar y gwasanaethau.

Mae'r system gyfredol o ariannu drwy hawl unigol i fudd-daliadau tai wedi cynnig rhywfaint o ddiogelwch o ran cyllid i wasanaethau lloches ac wedi sicrhau bod gan bawb sy'n gymwys am fudd-daliadau tai yr hawl i gael talu eu costau lloches. Mae pryderon bod y newid sylweddol hwn yn digwydd oherwydd canlyniadau adweithiol yn dilyn rhoi'r Credyd Cynhwysol ar waith yn hytrach nag yn sgil ystyriaeth o gynaladwyedd rhwydwaith cenedlaethol i fodloni anghenion yr holl oroeswyr a'u plant fel man cychwyn ar gyfer mecanwaith ariannu newydd sy'n canolbwyntio ar ddarpariaeth lloches.

Mae'r system bresennol wedi caniatáu bod costau llety lloches ar gyfer bob goroeswr yn sicr o gael eu bodloni os oedden nhw'n gymwys am fudd-daliadau lles. Mae hefyd wedi galluogi'r pot i fod yn hyblyg i amrywiadau o ran lefelau galw tra bod cronfeydd eraill wedi gostwng islaw'r lefelau galw. Yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig, mae gwasanaethau arbenigol wedi dioddef colled o 30% o arian o grantiau Tai ac Atal Digartrefedd gan awdurdodau lleol yng Nghymru.[3] Mae budd-daliadau tai sy'n talu costau tai wedi darparu sefydlogrwydd hanfodol ar gyfer llochesi yn y tirlun ariannu heriol o ran comisiynu cystadleuol a gostyngiadau mewn ffrydiau ariannu. Mae cael gwared ar y cysylltiad â hawliadau budd-daliadau unigol i gomisiynu drwy dendrau cystadleuol a grantiau yn golygu y byddwn yn colli'r cysondeb a'r hyblygrwydd hwn o ran angen ariannu.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu unrhyw estyniad ariannu i ganiatáu menywod heb unrhyw hawliad budd-daliadau tai i allu manteisio ar lochesi (e.e. trigolion yr UE, myfyrwyr, menywod mewn cyflogaeth) gan fod hyn yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth y DU i sicrhau nad oes "unrhyw ddioddefwr yn cael eu troi i ffwrdd oddi wrth wasanaethau cymorth hanfodol a ddarperir gan lochesi." Mae hefyd yn hanfodol cydnabod y gallai hyn gynrychioli cynnydd anhysbys o ran galw i bot sydd wedi'i bennu cyn agor mynediad at y gwasanaethau. Ar hyn o bryd, mae ein haelodau wedi dweud nad yw hi'n bosibl amcangyfrif y cynnydd posibl y gallai hyn ei gael ar alw. Gan fod y pot yn cael ei bennu gan ddefnyddio'r lefelau galw presennol mae hefyd yn bryder nad yw'r cynigion yn amlinellu sut y gellir mynd i'r afael ag unrhyw gynnydd mewn galw. Y llynedd methodd 500 o oroeswyr yng Nghymru â chael cefnogaeth lloches oherwydd diffyg adnoddau gwasanaeth neu gapasiti.[4] Mae'r gyfradd troi i ffwrdd yn amlygu nad yw adnoddau gwasanaethau arbenigol yn ddigonol i fodloni'r galw. Bydd unrhyw gynnydd mewn galw heb adnoddau cyfatebol yn arwain at fwy o oroeswyr yn methu manteisio ar y ddarpariaeth maen nhw ei hangen sy'n achub ac yn newid bywydau.

Dylai'r datganiad polisi hefyd gydnabod bod cael gwared ar yr hawl unigol i fudd-daliadau hefyd yn caniatáu ail-ystyried y cwestiwn 'methu â manteisio ar arian cyhoeddus'. Y llynedd yng Nghymru atgyfeiriwyd 78 o oroeswyr at gymorth mewn lloches yng Nghymru, ac oherwydd eu statws

[3] Cymorth i Ferched Cymru, Adroddiad Cyflwr y Sector 2017, cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017 http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/WWA-State-of-the-Sector-2017-ENG.pdf
[4] Cymorth i Ferched Cymru, Adroddiad Cyflwr y Sector 2017, cyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017 http://www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2017/12/WWA-State-of-the-Sector-2017-ENG.pdf

mewnfudo ansicr, nid oeddent yn gallu gofyn am arian cyhoeddus felly nid oedd posibl ariannu eu lleoedd.[5] O fewn y cynigion presennol bydd problem o hyd gyda phobl yn methu manteisio ar arian cyhoeddus gan y bydd yn parhau i fod yn seiliedig ar hawl unigolyn i gael budd-daliadau. Mae hyn yn tanseilio'r ymrwymiad na fydd unrhyw un yn cael ei droi i ffwrdd. Drwy gael gwared ar yr hawl unigol i fudd-daliadau dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod hyn yn caniatáu i'r holl oroeswyr fanteisio ar loches, ac mae'n rhaid i'r pot cyllid adlewyrchu'r galw y bydd hyn yn ei olygu.

**3. Maint y pot ar gyfer Cymru a galw yn y dyfodol**

Mae aelodau Cymorth i Ferched Cymru wedi codi pryderon ynghylch y ffaith bod lefel y cyllid wedi'i osod ar lefel sy'n cyfateb yn 2020/21 i'r hyn a fyddai fel arall wedi bod ar gael drwy'r system lles. Nid yw hyn yn caniatáu ar gyfer cynnydd mewn rhent a godir gan landlordiaid sy'n cael eu trosglwyddo i ddarparwyr gwasanaeth, nac ar gyfer cynnydd chwyddiant mewn costau gwasanaeth, er enghraifft, costau ynni. Mae'n debygol y bydd unrhyw gynnydd mewn costau neu ostyngiad yn y pot yn arwain at ostyngiad mewn elfennau cymorth ar adeg pan rydym yn gweld anghenion cymorth cynyddol i fenywod a phlant fanteisio ar loches (er enghraifft, gwella'r broses o nodi anghenion cymhleth ac anfantais luosog).

Yn ychwanegol at hyn, mae'n rhaid i'r cyllid sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru gynnwys y costau gweinyddu, os na fydd gostyngiad yng nghyfanswm yr arian sy'n mynd i ddarpariaeth gwasanaeth uniongyrchol. Rydym yn pryderu bod unrhyw arian sydd wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru yn cael ei ddyrannu i'w ddefnyddio i ariannu gwasanaethau uniongyrchol ac nad yw'n cael ei ostwng ymhellach yng Nghymru i dalu costau gweinyddu dyrannu'r gronfa. Felly, bydd angen arian ychwanegol i gefnogi gweinyddu'r gronfa.

**4. Clustnodi cronfa sy'n cael ei darparu i Lywodraeth Cymru**

Dylid clustnodi'r arian i ddarparu sefydlogrwydd tymor hir. Mae llochesi yng Nghymru yn wynebu risgiau pellach i'w cyllid wrth i grantiau sylweddol Llywodraeth Cymru gael eu datganoli i ardaloedd lleol, gan golli'r hyn sydd wedi'i glustnodi. Mae hyn yn golygu y bydd elfen budd-daliadau tai cyfredol y cyllid yn arbennig o bwysig i lochesi yng Nghymru, gan ddarparu elfen o sefydlogrwydd pan fo potiau cyllid eraill yn dod yn llai ac yn llai sefydlog. Mae pryderon y bydd dyraniad y cyllid ar gyfer tai â chymorth o'r pot budd-daliadau tai blaenorol yng Nghymru hefyd yn mynd i botyn lleol nad yw wedi'i glustnodi. Os yw hyn yn wir, gallai llochesi yng Nghymru o bosibl golli eu cyllid i gyd, nid yr elfen cymorth yn unig, gan arwain at risgiau sylweddol i ddyfodol darpariaeth lloches yng Nghymru, ac effeithio ar y rhwydwaith o ddarpariaeth ar draws y DU. Mae'n hollbwysig sicrhau bod yr elfen hon o'r cyllid yn cael ei diogelu drwy glustnodi ar gyfer ei ddiben cyfredol, cyn ei ddyrannu i Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod diben y cyllid yn cael ei ddiogelu.

**5. Effaith ar rwydwaith cenedlaethol y ddarpariaeth**

Oherwydd natur cam-drin domestig a'r gofyniad i drefnu cymorth lloches yn aml mewn lleoliad diogel i ffwrdd o gartref y goroeswr, mae gan Cymorth i Ferched Cymru bryderon sylweddol ynghylch effeithiau canlyniadol y model ariannu newydd yn Lloegr ar y rhwydwaith cenedlaethol o ddarpariaeth lloches yn y DU. Mae'r model arfaethedig yn Lloegr i leoleiddio cyllid lloches ymhellach yn debygol o gael effaith andwyol ar y rhan o rwydwaith cenedlaethol lloches y DU sydd yn Lloegr.

[5] Cymorth i Ferched Cymru, 'Crynodeb o Ddata 2016/17 o Wasanaethau Arbenigol yng Nghymru', 2017.

Bydd hyn yn cynyddu'r galw ar wasanaethau yng Nghymru ac yn cyfyngu ar allu goroeswyr i fanteisio ar ddarpariaeth lloches ledled y DU.

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi y bydd yn annog awdurdodau lleol i gydweithio'n agos fel nad oes unrhyw un yn cael eu troi i ffwrdd a bydd yn rhaid iddynt nodi manylion darpariaeth ar gyfer grwpiau heb unrhyw gysylltiad lleol. Fodd bynnag, ymddengys nad oes unrhyw gymhelliad i awdurdodau lleol wneud hyn. Gallai model comisiynu lleol effeithio'n andwyol ar lochesi nad ydynt yn gallu gweithio ar sail unrhyw gysylltiad lleol, yn aml am resymau gwirioneddol yn ymwneud â diogelwch y goroeswr ac unrhyw blant. Hefyd, mae pryderon am gydnabod y llochesi hynny nad ydynt yn cael eu hariannu ar lefel leol ar hyn o bryd, yn enwedig darpariaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, mewn asesiadau anghenion lleol a mecanweithiau ariannu. Yr hyn sy'n peri gofid yw ein bod eisoes yn gweld comisiynwyr yn trafod cwotâu lleol ar gyfer manteisio ar loches, mae hyn yn methu â deall anghenion goroeswyr a'u plant i fanteisio ar loches lle a phryd maen nhw ei angen waeth beth fo'u lleoliad.

Yn ogystal â hyn, mae pryderon sylweddol bod model Lloegr, gyda darpariaeth lloches yn cael ei gynnwys yn yr un pot â darpariaeth generig arall, yn mentro cymell darpariaeth generig, 'unffurf' ar gyfer gwasanaethau tai tymor byr. Fel yr amlinellwyd uchod, mae hyn yn methu â chydnabod pwysigrwydd darpariaeth lloches arbenigol i gynnig cymorth o ansawdd uchel i oroeswyr a'u plant a chyflawni canlyniadau tymor hir cadarnhaol.

Mae angen i fframwaith fod ar waith fel rhan o'r model i alluogi gweithio traws-ffiniol. Nid yw meini prawf cysylltiadau lleol yn briodol ar gyfer gwasanaethau lloches. Mae'r rhwydwaith cenedlaethol lloches a darpariaeth symud ymlaen ledled y DU yn adnodd hanfodol i'r goroeswyr niferus sydd angen teithio y tu hwnt i'w hardal leol i ddianc oddi wrth eu partner ymosodol er mwyn sicrhau eu diogelwch eu hunain a diogelwch eu plant. Mae angen i unrhyw fodel ariannu yn Lloegr gydnabod yr effaith bosibl ar ddarpariaeth y rhwydwaith ledled y DU, a'r goroeswyr fydd yn manteisio arno o fannau eraill. Mae'n rhaid sicrhau ei fod yn cefnogi gwasanaethau sy'n gweithredu ar y cyd mewn rhwydwaith genedlaethol yn y DU, yng Nghymru a ledled y DU.

Mae gan Lywodraethau'r DU a Chymru ymrwymiadau i gefnogi gwasanaethau lloches, ac mae'n hanfodol defnyddio'r ymrwymiad hwn ar y cyd i ddatblygu model ariannu cynaliadwy, gan fod cyllid ar hyn o bryd yn dod o amrywiaeth o ffynonellau datganoledig ac annatganoledig. Mae Strategaeth Trais yn erbyn Menywod a Merched 2016-2016-2019, a'r Datganiad Cenedlaethol o Ddisgwyliadau ategol, yn nodi ymrwymiad clir Llywodraeth y DU i ddarparu'r math hwn o gymorth lloches arbenigol a sicrhau *'nad oes unrhyw ddioddefwr yn cael ei droi i ffwrdd oddi wrth wasanaethau cymorth hanfodol sy'n cael eu darparu gan lochesi.'* Yn yr un modd, mae Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn cynnwys y flaenoriaeth i *'ddatblygu model ariannu cynaliadwy ar gyfer darpariaeth gwasanaethau arbenigol.'* I sicrhau y bodlonir yr amcanion hyn, bydd angen dull cyd-gysylltiedig gan y ddwy lywodraeth er mwyn i wasanaethau lloches Cymru gael yr un cyfleoedd â llochesi eraill yn y rhwydwaith cenedlaethol i fanteisio ar gyllid cynaliadwy tymor hir.

**6. Amserlen**

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu'r estyniad i'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r cynigion hyn. Mae angen datblygu'r newid hanfodol hwn o fewn amserlen realistig ac ni ddylid ei gyfyngu gan y

cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r Credyd Cynhwysol. Yn yr un modd, dylid peilota a phrofi newid sylweddol o'r fath er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithiol. Gallai hyn gynnwys rhoi ar waith fesul camau ar draws ardaloedd i ganiatáu rhoi sylw i unrhyw broblemau cyn iddynt effeithio ar ddarpariaeth ar draws pob ardal.

---

Hoffai Cymorth i Ferched Cymru ddiolch i'r Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran ar gyfer Cymunedau a Llywodraeth Leol am y cyfle i wneud sylwadau ar yr ymgynghoriad pwysig hwn ac edrychwn ymlaen at gyd-weithio yn y dyfodol.

Gellir cyfeirio unrhyw sylwadau neu gwestiynau am ein hymateb at:
**Gwendolyn Sterk, Rheolwr Materion Cyhoeddus**
**02920 541 551**
**gwendolynsterk@welshwomensaid.org.uk**